YR ANGOR

PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION

'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 42. RHIF 1 MEHEFIN 2020 50c


# APÊL WENA EVANS DROS 'SCRUBHUB'



**Dros yr amser annifyr yma yr wyf wedi dechrau gwnïo dillad (scrubs) hetiau a bagiau i bobl sydd yn gofalu am gleifion gyda'r salwch COVID-19. Ymunais gyda nifer o bobl sydd yn rhan o rwydwaith cymunedol a elwir 'Scrubhub' – maent i gyd yn hoffi gwnïo. Fy nhasg i yw gwnïo bagiau (allan o pillow slips) er mwyn i'r gofalwyr rhoi eu dillad budr (scrubs) i mewn i'r bagiau ar ôl gweithio ac yn eu trosglwyddo i'r peiriant golchi yn syth ar ôl cyrraedd adref.**

**Os oes ganddoch ddillad gwlâu sbâr, fe allwn ni eu defnyddio! Cewch adael y dillad mewn bag tu allan i 32 Mayville Rd., neu mi fedrwn bigo'r bag i fyny.**

**Os hoffech roi arian at brynu defnydd scrub ewch i safle wefan 'Scrubhub' sef www.scrubhub.org.uk**

**Cadwch yn saff ac yn iach.**
**Hwyl!**
**Wena x**

## TALIADAU I'R TRYSORYDD

***Pan ddaw rhifyn Cyfrol 42, Rhif 1, Mehefin i'ch dwylo byddwch yn sylweddoli fod yr amser wedi dod i ystyried anfon o leiaf £11 am Yr Angor trwy'r post. Gwerthfawrogir y rhai sydd yn cyfrannu yn haelionus tu hwnt.***

***Dyna pam, fod rheidrwydd ar y Golygydd a'i dîm i gydnabod hynny trwy ofalu, hyd yn oed mewn creisis fod Yr Angor yn ymddangos. Diolch o galon.***

# HYSBYSEB 'POP-UP' YR ANGOR'




Derbyniwyd hysbysiad cyfoes am "Yr Angor' ym mis Ebrill. Gelwir y gwrthrych yma yn 'pop-up'. Diolch i Heledd ap Gwynfor am archebu rhain i'r papurau bro. Mae Heledd yn Gydlynydd Partneriaethau Mentrau Iaith Cymru sydd yn gyfrifol am gysylltu gyda'r papurau bro ar ran Llywodraeth Cymru. Dim ond hanner o'r papurau bro sydd wedi medru cyhoeddi yn ystod yr amser argyfyngus yma a phrif rheswm am hyn fod y gweisg yn gorfod cau.

Rydym yn ffodus fod Aeron Jones yn medru dal i argraffu 'Yr Angor' ac hefyd yn medru eu postio yn uniongyrchol i'n darllenwyr.

Golygyddol

# Rhodd werthfawr yw bywyd i bawb ohonom – gan D. Ben Rees

Daw y geiriau o enau Saunders Lewis ac o'i ddrama Siwan ac ers ei ganmlwyddiant yn 1993 dywedaf y geiriau sydd yn destun i'r ysgrif hon bob dydd o'm byw. Ac ers dyddiau coronafeirws yr ydym yn hynod ymwybodol o'r neges eirias, di-gyfaddawd. Ymffrostiai dyn byrbwyll o'r Unol Daleithiau y noson o'r blaen ar y teledu na fedrai y feirws wneud dim byd ag ef. Ynfytyn. Bron cynddrwg ag Arlywydd y wlad fawr honno. Meddyliwch amdano am gadw yr ymfudwyr allan o'r Unol Daleithiau, dyna yw ei fam ef a mam aml un arall.

Nid oes neb yn dianc os yw'r anghenfil anweledig a gafodd ei eni a'i fagu filoedd o filltiroedd oddiwrthym. Eto mae'r gelyn hwn wrth law y funud hon. Gwyddom fod bywyd gwlad fawr fel Seina yn gwahodd y fath haint gan fod y modern a'r ffordd gyntefig yn byw ochr yn ochr i'w gilydd. Yr ofn sydd gennyf fi yw y byddwn yn y blynyddoedd sydd yn dod yn gorfod gwynebu ar gyfnodau fel hyn, cyfnod pan y bydd clefydau heintus o'r Dwyrain Pell yn peryglu bywyd gwledydd mwy sobr Cyfandir Ewrop a gwleidyddion y Gorllewin yn methu rheoli y sefyllfa. Er fod 10 Downing Street wedi ceisio cuddio cyflwr enbydus y Prif Weinidog Boris Johnson, pan ddaeth y feirws heibio iddo, buan y sylweddolwyd nad oedd modd i wneud hynny. Yr union funud y dywedwyd yn y Cyfarfod gyda'r newyddiadurwyr fod Johnson yn eistedd i fyny ac yn mwynhau ei hun, dyna'r union foment y rhuthrwyd ef i ystafell gofal dwys Ysbyty Sant Thomas i gael ocsygen i'w gynorthwyo i anadlu. Roedd ei fywyd yn y fantol. Os oes rhywun a all ddweud, 'Fy mod i yn fyw sydd yn fawr ryfeddol' Boris Johnson yw hynnw. Gwn na fydd ef byth eto yn gwarafun i'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol i gael adnoddau at ei gwaith tyngedfennol.

Y mae darllen enwau y merched a'r bechgyn dewr a dawnus a gollodd ei bywyd ar wardiau yr Ysbytai ers dyfodiad y Covid-19 yn gwneud ni yn ostyngedig iawn. Dyma aberthu bywyd hwy eu hunain er mwyn gwella eraill. Dyma arwyr ein hoes a BYDD YN RHAID DATHLU Y FUDDUGOL-IAETH PAN DDAW HI. Er Cof Amdanynt Hwy. Ie pa bryd y daw hi? Mewn tri mis? Chwech mis? Blwyddyn a hanner meddai'r doeth pan ddaw y gwyddonwyr meddygol o hyd i'r belen fach a all wella pobl o'r haint. Y mae'r ateb yn llaw Duw a'i wyddonwyr a'i ymchwilwyr. Y mae heddiw fel ddoe bellach yn wybyddus ond nid yw yfory yn ogystal. Cefais fy nghysuro yn y gwewyr mawr a brofwn o weld Gruffudd Owen, Beirdd Plant Cymru, yn ysbrydoli plant blwyddyn 5 a 6 Ysgol Gynradd Gymraeg Llwyncelyn yn y Rhondda. Dyma'r gerdd ar y Gwanwyn:



Gruffudd Owen

*Dyma hi'n dod, y Gwanwyn!*
*Mae hi fel merch fach,*
*Sy'n rhedeg yn chwim*
*ac mae blodau yn tyfu yn ôl ei throed.*

*Mae ei gwallt yn felyn*
*Fel cennin pedr*
*A'i dillad yn fyrdd o egin egniol*
*Rwy'n teimlo ei dwylo oer.*

*A'i chalon gynnes*
*Yn lledu hyd llethrau'r cwm*
*Rwy'n ysu am gael ei chwmni annwyl eto eleni*
*Dyma hi'n dod, y Gwanwyn.*


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

National Association of Funeral Directors
Est 1905

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Cyfarchion oddiwrth aelodau Seion at ddarllenwyr yr *Angor* gan fawr obeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ymdopi gyda'r rheolau newydd.

Er na chawn gyfarfod yn y capel 'rydym yn cysylltu ar y ffôn. Mae'n Cynorthwy-ydd Bugeiliol, Y Parchedig Robert Parry, yn ffônio'r aelodau i gyd i gael gair gyda hwy a mae pawb yn gwerthfawrogi hynny.

Anfonwn llongyfarchiadau cynnes iawn i Trefor ac Eirina Roberts ar ddathlu chwedeg mlynedd o fywyd priodasol ar Ebrill 15eg, Priodas Ddiemwnt, ac anfonwn ein dymuniadau gorau iddynt i'r dyfodol. Nid yw'r ddau yn mwynhau iechyd da ar hyn o bryd a dymunwn adferiad buan iddynt.

Er nad allwn fynychu'r capel ar y Sul mae'r cyfryngau yn ymorol ein bod yn cael gwasanaethau crefyddol ar y Sul. 'Rwy'n sicr fod llawer iawn yn edrych ymlaen at Rhaglen S4C am 11 o'r gloch bore Sul, pregeth a chanu bendigedig *Dechrau canu, Dechrau Canmol* ac yna pregeth ar y radio am 12 o'r gloch. Mawr ddiolchwn am hyn. Hyfryd iawn oedd gweld a chlywed aelodau Bethel yn canu emyn 221 'Mae d'eisiau di bob awr' ar Ebrill 19eg.

'Roeddwn yn ddiolchgar iawn o dderbyn *'Yr Angor'* trwy'r post ychydig o ddyddiau yn ôl, ac wrth ddarllen ysgrif Dr Pat Williams am Gwilym Meredydd Jones y llenor daeth llu o atgofion hapus iawn i'm meddwl o'r hen ddyddiau flynyddoedd maith yn ôl.

Daeth Gwilym a minnau i Lerpwl yn 1945 i ddechrau ar ein gyrfa fel athrawon a deuthum i'w adnabod yn Aelwyd Anfield, Aelwyd Bootle, Aelwyd Birkenhead ac Aelwyd Wallasey.

Pob blwyddyn fe gynhaliwyd "Gŵyl Ddrama yr Aelwydydd" yn y Crane Theatre ar Nos Wener a Nos Sadwrn a'r Aelwydydd yn cystadlu am ennill y wobr.

Ynghyd â bod yn lenor da 'roedd Gwilym a diddordeb mawr ym myd y ddrama ac yn actor da. Yn aml iawn byddai yn cynhyrchu dramau Aelwyd Anfield ac yn actio ynddynt. Yn 1951 bu'm yn actio gyda Gwilym mewn drama o waith Cynan. Y teitl oedd *"Y Sêr yn eu Graddau"*, rhydd-gyfaddasiad i'r Gymraeg o ddrama Saesneg Vincent Godfroy, *'Blessed above Women'* a mawr oedd llawenydd Gwilym pan enillodd Aelwyd Anfield y gystadleuaeth. Mae copi o'r ddrama yn fy meddiant o hyd er braidd yn fregus erbyn hyn.

Faint ohonoch chwi, ddarllenwyr *Yr Angor*, sydd yn cofio'r cyfnod hapus a phrysur yma yn Lerpwl gyda'r Aelwydydd yn llawn brwdfrydedd?

Pob bendith i chi i gyd a swatiwch yn ddiogel.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Derbyniodd ein Gweinidog nifer o negeseuon o Ddyffryn Ardudwy a hefyd gan y ferch a'r teulu o Southampton yn diolch am yr hyn y bu ef i'r diweddar J. Gwyndaf Williams, Ainsdale ac am y deyrnged hardd a dalodd i un o'n haelodau ers bron i hanner can mlynedd. Daeth dau ddwsin i'w arwyl ef yn Burscough ond erbyn hyn cyfyngir y nifer i ddeg sydd yn fach iawn i goffau personau a gyfranodd mor helaeth i'n cymunedau a'n capeli. Gwyddom fod Dr. D. B. Rees wedi gwasanaethu y Glannau yn drwyadl trwy yr Ysgrifau Coffa a chred ef ei bod bellach yn bwysicach nag y buont erioed gan fod y cyfyngu ar y gwasanaeth yn y capel, yr amlosgfa a'r fynwent yn amddifadu yr anwyliaid o deyngedau sydd yn haeddu i eraill weld olau dydd. Diolcha John P. Lyons a'r teulu am y deyrnged a ymddangosodd yn y rhifyn cyfredol o *Etifeddiaeth*, sef cylchgrawn Cymdeithas Dydd yr Arglwydd am yr annwyl Marian Lyons. Cafodd hi ei chofio gan bod John a Marian mor garedig tuag at gyllid y Gymdeithas sydd yn mynd yn brinach bob blwyddyn oherwydd fod cymaint o gapeli yn cau ei drysau a'r Gymdeithas yn gorfod byw ar lai o roddion. Nid yw Capel Bethania yn anghofio chwaith angen y Gymdeithas. Prif bwrpas y Gymdeithas yw gwarchod addoliad y Sul a gwelwn bellach mor bwysig yw ein cyfarfyddiadau a neges y Gymdeithas hon mewn dyddiau pan y mae Dydd yr Arglwydd yn anghofus mor aml. Diolch felly mewn mis lle na bu un cennad nag addolwr ar gyfyl yr adeilad hyfryd sydd gennym i'w rannu gyda Eglwys Anglicanaidd Crist yn Waterloo. Derbyniwyd neges oddi wrth y Parchedig G. Wareing o Southport yn anfon ei gofion i aelodau Bethania gan ddweud ein bod fel Eglwys yn affaeliad mawr, i Deyrnas Dduw a chaiff ef yn bersonol foddhad mawr i esgyn i'w phwlpud yn enw'r Arglwydd pan mae cyfle i hynny. Hyfryd cael neges fonheddig o'r fath mewn dyddiau o argyfwng mawr arnom fel byd.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Cafodd Eglwys Bethel fel Bethania a hefyd Seion ym Mhenbedw gwir foddhad ar fore Sul y Pasg i gael clywed ein cynorthwy-ydd Bugeiliol y Parchedig Robert Parry o'i gartref yn Coed-llai yn ein harwain ar un o Suliau pwysicaf yng nghalendr yr Eglwys Gristnogol. Teimlem oll yn freintiedig o gael ein harwain trwy Radio Cymru i amgyffred fod gwanwyn i ddod ar ôl y gaeaf yr ydym ynddo. Cafwyd neges gyfoes, yn wir mwy o wasanaeth ar gyfer y cyfrwng na fyddid yn ei gael mewn litwrgi capel. Ni wyddom pwy oedd y ferch arall a fu'n darllen, perthynai hi i Gorfforaeth y BBC ond clywsom lais Anna y ferch yn gweddïo am ein cadw yn fyw yn y storom fawr ei grym. Mae ganddi hi yn wyth mlwydd oed gyfraniad i grefydd yng Nghymru'r dyfodol a diolch i'w rhieni am ei magwraeth. Edrychwm ymlaen i'w gweld yn fuan, pan fydd y llid yn llithro o'n gafael. Ni ddihangodd pawb o'n pobl rhag y coronafeirws. Bu Dafydd Rees, West Hampstead a Garth Drive yn yr Eidal am benwythnos ac mae'n amlwg i'r feirws ddod o hyd iddo. Bu yn hynod boenus ac yn wan ond ni fu raid mynd i'r Ysbyty. Un arall a ddioddefodd y feirws oedd Keinion ap Thomas, Cressington a deallir iddo ef dreulio ychydig ddyddiau yn Awstria. Ar ôl dychwelyd i Lerpwl daeth y feirws yn wybyddus iddo a balch ydym o ddeall ei fod yn gwella. Y ddau ohonynt yn cryfhau. Treimlwn fel Eglwys fod gennym hanner dwsin o wirfoddolwyr sydd yn barod i estyn help llaw i'r rhai hynny sydd yn gaethiwus, ac felly cysylltwch gyda swyddogion yr Eglwys os am help. Derbyniodd o leiaf wyth o'n haelodau lythyr y Llywodraeth yn gwarafun arnynt i beidio mentro allan o'r cartref ond i'r ardd pan mae'r haul yn disgleirio. Deallir bod pob un o'r wyth – efallai bod mwy wedi derbyn y llythyr swyddogol – sydd yn ein clymu ni i'n cartrefi am ddeuddeg wythnos. Diolch am Feibl annwyl Iesu, gweddi a gweddïau fore a nos, deledu gyda'r hwyr, radio yn y bore, yr Angor, cylchgronau, gair dros y ffôn a'r llythyr digidol dwyieithog a enfyn Dr John Williams allan ar y penwythnosau i'n clymu ni at ein gilydd.

**Cysylltwch â'r**

**YR ANGOR**

PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION


'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

garthdriveben@gmail.com

# Epidemig Polio 1952 – gwersi i'w dysgu

## *gan Dr. John G. Williams*


Bu nifer o bandemigau yn ystod yr ugeinfed ganrif a'r un mwyaf angheuol oedd y pandemig ffliw yn 1918 a laddodd fwy o bobl, 20-50 miliwn, na'r Rhyfel Byd Cyntaf. Yn ystod yr wythnosau diwethaf rydym wedi gweld lluniau erchyll ar y cyfryngau o bobl yn siopio'n wyllt, canolfannau dinasoedd yn wag ac adeiladu ysbytai ar frys i gymeryd cleifion gwael. Mae'r delweddau yma yn debyg i beth a welwyd adeg yr epidemig Poliomyelitis yn yr Unol Daleithiau bron iawn i saith deg mlynedd yn ôl.



***Firws Polio a COVID-19***

Erbyn y 1950au, roedd Polio wedi datblygu fel un o'r afiechydon heintus mwyaf difrifol ymhlith plant yn yr Unol Daleithiau.

Wrth i'r tywydd gynhesu bob blwyddyn roedd pobl yn poeni am ymddangosiad polio . Cafodd diwedd yr haf ei alw'n "dymor polio." Caewyd pyllau nofio cyhoeddus. Anogwyd cwsmeriaid sinemau i beidio ag eistedd yn rhy agos at ei gilydd er mwyn osgoi lledaenu'r afiechyd a gwelwyd hysbysebion tu allan i dai yn annog pobl i gadw draw gan fod yna bosiblrwydd roedd rhywun yn dioddef o'r afiechyd yn y tŷ.



ACUTE ANTERIOR POLIOMYELITIS

(A COMMUNICABLE DISEASE)

Keep Out of this House

By Order of BOARD OF HEALTH

HEALTH OFFICER

...erson removing this card without authority is liable to prosecution.

***Nodyn yn rhybuddio y cyhoedd fod yna claf yn y tŷ***

Yn 1952 yn unig, cafodd bron i 60,000 o blant eu heintio â'r firws; cafodd miloedd eu parlysu, a bu farw mwy na 3,000. Mae'r parlys yn cael ei achosi oherwydd niwed a wneir i'r nerfau sydd yn rheoli'r cyhyrau. Gwelir cerflun o ddyn o'r Aifft gyda choes ddi-ffrwyth ymhell cyn genedigaeth Crist.

Mae'r COVID-19 yn achosi hylif i gasglu yn yr ysgyfaint sydd yn ei dro yn rhwystro trosglwyddiad ocsigen i weddill y corff.

Bygythiad mawr i'r claf gyda polio cyhyrau'r frest yn cael eu parlysu. Nid oedd y cleifion yn medru anadlu yn ddigon dwfn ac felly roedd angen cymorth oddiwrth peiriannau anadlu a elwir yr 'ysgyfaint haearn' (*the Iron Lung*). Roedd y peiriant yn medru cynyddu maint anadliad y claf trwy sugno aer i mewn ac allan o'r siambr lle roedd y claf yn gorwedd.



***Cerflun o ddyn o'r Aifft gyda ffôn cerdded a choes ddi-ffrwyth a amlinellir gan y saeth gwyn (circa 1403-1365 cyn Christ)***





***Sgan CT ysgyfaint wedi ei heintio gyda'r firws***

Firws sydd yn achosi Polio. Dim ond ymhlith bodau dynol y mae'r firws Polio i'w gael ac mae'n cael ei drosglwyddo yn bennaf gan yfed dŵr sydd wedi'i halogi gan berson sy'n cario'r y firws. Ar y llaw arall anifeiliaid yw tarddiad COVID -19 ac mae'r firws wedi goroesi'r ffin rhwng byd yr anifeiliaid a'r byd dynol . Ni fedrwn cael gwared â'r anifeiliaid sydd yn cario'r firws. Felly yr unig ffordd i amddiffyn poblogaeth y byd yn erbyn y firws yw datblygu brechlyn yn ei erbyn neu ddatblygu cyffur sydd yn ei ladd.

Defnyddir dau fath o frechlyn yn erbyn Polio sef firws Polio sydd wedi cael ei ladd gan formalin a roddir trwy chwistrelliad (Inactivated Polio vaccine [IPV] ) a firws Polio sydd wedi ei gwanhau a roddir trwy'r geg ar lwmp siwgr (Oral Polio vaccine [OPV]) Defnyddiwyd brechlyn Salk (IPV) yn gyntaf yn 1955 ac

roedd y newyddion am y darganfyddiad ar dudalennau blaen y papurau i gyd. Erbyn 1961 defnyddiwyd fersiwn Sabin (OPV) Mae'r ddau frechlyn wedi dileu polio o'r rhan fwyaf o'r byd, ac wedi lleihau nifer yr achosion o 350,000 ym 1988 i 33 yn 2018.




*Plentyn mewn 'Iron Lung'*



*Ward o beiriannau anadlu yn Efrog Newydd yn 1952*




*Jonas Salk ac Albert Bruce Sabin*

Mae gwyddonwyr dros y byd yn ceisio darganfod brechlyn am COVID-19 a phob bendith iddynt ar y dasg bwysig. Go brin y ddaw un am flwyddyn arall. Hyd hynny cofiwch hunan ynysu, yn arbennig os ydych 70 mlwydd a fwy, a pheidiwch â chrwydro allan i wneud rhywbeth gall rhywun arall wneud ar eich rhan. Cymerwch ofal a chadwch yn sâff.

# Cwestiynau Cwis 'PONTIO'

***Anfoner yr atebion Cywir i'r Golygydd erbyn bore Mercher 1 Gorffennaf man pellaf i'r golygydd, 32 Garth Drive, Liverpool L18 6HW. Gwobr i'r gorau. Peidiwch bod ofn ateb y rhain mewn chwe wythnos.***

1. Yn ble 'mae 'nghariad'; Yn ble 'mae 'mwriad'; Yn ble 'mae'r ferch fach lân, A'i chael o flaen y 'ffeiriad, yn ôl y can werin enwog o casgliad Iago ab Ieuan?
2. I gefnogwyr rygbi Cymru sut mae Charlie Faulkner, Bobby Windsor a Graham Price yn fwy adnabyddus?
3 Ble oedd lleoliad protest gyntaf Cymdeithas yr Iaith Gymraeg?
4. Pa arwyddair, sy'n tarddu o'r Mabinogion, sy'n cael ei ddefnyddio gan lawer o ysgolion Cymru?
5. Pwy yw'r person mwyaf adnabyddus i darddu o Pontypandy?
6. Saer coed, diddanwr a chenedlaetholwr oedd Gwilym Eirwyn Jones a adwaenid yn well fel pwy?
7. Pwy oedd golygydd olaf 'Y Bont' hen gylchgrawn y glannau?
8. Pa ddyfais bwysig oedd John Jones, prif fecanydd glofa Pentremawr yn Gwm Gwendraeth yn gyfrifol am eu creu?
9. Ble roedd lleoliad stiwdios cyntaf y cwmni teledu TWW?
10 Pa adeiladwaith yng Ngogledd Cymru, a ddyluniwyd gan Thomas Telford a William Jessop, sydd â deunaw bwa?
11. Pa orsaf reilffordd yng Ngogledd Cymru lle nad oes pentref lleol, oedd y man llwytho llechi o chwarel Rhiw-goch yr ochr arall i'r dyffryn ac sy'n dal i gael ei defnyddio heddiw ar gyfer teithwyr?
12. Ger pa adeiladwaith yn Ogledd Cymru y gwelir, yn eiriau'r Bardd Cocos. 'Pedwar llew tew, Heb ddim blew, Dau'r ochr yma, A dau'r ochr drew'?
13. Yn ble y mae 'Eisteddfod Teulu James Pantyfedwen' yn cael ei chynnal?
14. Yn ble y ganwyd y canwr Cymraeg enwog Ivor Emmanuel?
15. Cartref pa dîm rygbi yw 'Cae'r Bragdy'?
16. Pa dref ysgrifenodd y bardd Saesneg Syr John Betjeman gerdd amdani o'r enw 'The Licorice Fields'?
17. Pa dref yn Llydaw, sy'n fwyaf adnabyddus am ei chysylltiad â'r arlunydd Paul Gauguin, sy'n cynnal gŵyl flynyddol 'Fleurs Ajoncs' yr ŵyl werin hynaf yn Llydaw?
18. Pa gwmni gwyliau enwog sydd â gwersyll gwyliau ym Mhrestatyn?
19. Pa adeiladwaith yn Ogledd Cymru sydd yn cael ei disgrifio fel 'Uchelgaer uwch y weilgi' gan Dewi Wyn?
20. Mae pont Hertford yn Rhydychen wedi'i chysylltu â pha bont enwog o'r Eidal?

**( Diolch i David Williams am lunio y Cwis)**

# DYSGUB Y DAIL

Dyna deitl annisgwyl i bwt o erthygl ar gyfer mis Mehefin, ond yr wyf yn ysgrifennu ar ddiwedd mis Ebrill sydd wedi bod allan o'r cyffredin mewn sawl ffordd. Yn sgîl y feirws, daeth i ben – am gyfnod beth bynnag - ein ffordd arferol o fyw: mynd i siopa, ymweld â chyfeillion, y capel ar y Sul, cymdeithasu ac yn y blaen, a hyn oll dan awyr las a thywyniad haul bob dydd bron. Mae Eflyn a minnau yn ffodus o gael cymdogion sy'n hynod o gynorthwyol ac yn sicrhau fod gennym bopeth angenrheidiol drwy siopa ar ein rhan. Mae'r dyn llefrith yn galw deirgwaith yr wythnos, mae y siop gig yn y pentre a'r siop gwerthu pysgod yn barod i ddanfon eu cynnyrch at ein drws, dim ond i ni godi'r ffôn ymlaen llaw. Yr ydym yn ffodus hefyd bod gennym ardd gefn lle gallwn eistedd i fwynhau yr awyr agored a'n bod yn byw mewn ardal sy'n ymylu ar yr afon Ferswy. Gallwn fod ar lan yr afon ymhen pum munud o gerdded, ac ar ei thraws ymhen munud arall. Dyna gamp i chwi drigolion Lerpwl a Phenbedw!

Mae gennym lawer felly i fod yn ddiolchgar amdano, a da fyddai i ni gofio am lawer sydd yn fyr o'n breintiau, yn enwedig y sawl sydd heb *iPad*. Dyma ddarn o dechnoleg sy'n ein gallu i gadw mewn cysylltiad â'r teulu yma ac yn Florida, nid yn unig drwy sain ond cael eu gweld hefyd. Bendith arno! Ond o'r *iPad* symudwn i'r *'I'* – y papur dyddiol. Cawsom neges e-bost gan un o'n ffrindiau ychydig yn ôl, yn gyrru ymlaen ddarn oedd wedi ymddangos yn yr *'I'*. Ysgrif gan Carlo Rovelli, awdur a gwyddonydd o'r Eidal, o dan y teitl *'Coronavirus reminds us we're like leaves in the autumn wind, not masters of the world'*. Dweud yr oedd *'ein bod ni yn y gwledydd cyfoethog wedi arfer gweld trychinebau yn digwydd mewn mannau eraill o'r byd a bod Covid-19 yn ein hatgoffa nad ydym mor rymus ag y tybiwn. Er ein holl wybodaeth, yr ydym yn dal i fod yn nwylo natur sydd weithiau yn rhoddi bendithion i ni ac weithiau yn ein camdrin. Gwyddoniaeth a thechnoleg yw yr arfau gorau sydd gennym ond ni allant ddatrus bob problem. Yr ydym yn cael ein llethu gan feirws syn llai na gronyn o lwch.*

*Nis gŵyr neb beth fydd effaith y cyfnod yma ar ein bywydau ond bydd un peth yn glir – fod cydweithio yn well na chystadlu. Mae'r newyddion o ddydd i ddydd wedi canolbwyntio ar y nifer a fu farw o Covid-19, ond mae marwolaeth wedi bod gyda ni erioed. Ymladd y mae'r meddygon a'r Gwasanaeth Iechyd i brynu ychydig ddyddiau neu flynyddoedd o fywyd ychwanegol i ni. Mae mwy yn marw bob blwyddyn o gancr neu glefyd y galon - neu henaint – nag sydd yn marw o Covid-19 ar hyn o bryd, a mwy byth yn marw o newyn neu ddiffyg maeth. Beth mae'r feirws wedi'i wneud yw rhoi o'n blaen beth y bydd well gennym fel arfer ei osgoi – sef byrder a breuder bywyd. Nid ydym yn feistri ar y byd, yr ydym fel ag y buom erioed, nid yn anfarwol ond yn fregus fel dail yr Hydref yn y gwynt.'*

Dyna beth wnaeth i mi droi at '*Hoff Gerddi Cymru'* a chwilio am linellau Crwys, a'r darlun o'r *'henwr wrthi'n fore'n sgubo'r dail'*. Un peth yr wy'n siwr y byddwn yn fwy ymwybodol ohono yn y dyfodol fydd gwerth y teulu, ein ffrindiau, a chyfeillgarwch y gymuned leol.



***Afon Merswy yn Didsbury***

Gadewch i ni ymladd gyda'n gilydd i brynu hyd y gallwn fwy o ddyddiau ar y ddaear, nid yn unig i sgubo dail yr Hydref ond i fwynhau y Gwanwyn a ddaw yn ei dro.

***Elwyn ac Eflyn Evans***

***DYSGUB Y DAIL***

*Gwynt yr hydref ruai neithiwr,*
*Crynai'r dref i'w sail,*
*Ac mae'r henwr wrthi'n fore'n*
*Sgubo'r dail.*

*Yn ei blyg uwchben ei sgubell*
*Cerdd yn grwm a blin,*
*Megis deilen grin yn ymlid*
*Deilen grin.*

*Pentwr arall; yna gorffwys*
*Ennyd ar yn ail,*
*Hydref eto, a bydd yntau*
*Gyda'r dail.*

***William Crwys Williams***




## DIOLCH A LLONGYFARCHION

Dymunaf ddiolch yn fawr ichi am anfon ysgrif goffa John Gwyndaf Williams ataf. Bwriadaf ei gynnwys yn rhifyn mis Mai o *Llais Ardudwy*. Mae ei deulu yma yn Ardudwy yn ddiolchgar iawn am y gymwynas.

Hoffwn hefyd eich llongyfarch ar y ddwy gyfrol ddiwethaf am Lerpwl a'r Cyffiniau imi eu darllen, sef *'Codi Angor'* a *'Hanes Rhyfeddol Cymry Lerpwl'*. Cefais y ddau lyfr yn anrhegion gan Dr John Williams. Rwyf wedi darllen y ddwy gyfrol o glawr i glawr ac wedi eu mwynhau yn fawr. Hoffwn hefyd ychwanegu fy mod wedi mwynhau'r ddau gofiant i Jim Griffiths a Cledwyn Hughes.

Mae dyled pobl Lerpwl, Penbedw a Mancenion ac, yn wir, Cymru gyfan yn fawr iawn ichi.

Hyderaf eich bod yn cadw'n ddiogel wrth hunan-ynysu.

Yn ddiffuant iawn,

*Phil*

*Phil Mostert*
*Bryn Awel*
*Ffordd Uchaf*
*Harlech*
*Gwynedd LL46 2SS*

# Cofio R. Williams Parry
## (1884-1956)
### *gan Dr. Pat Williams, Allerton*


Mae bron pob cyfeiriad at R. Williams Parry yn dweud ei fod yn gefnder i T H Parry-Williams a Thomas Parry. Ymddengys iddo ef ei hun fod yn ymwybodol o'r gymhariaeth â'i gefndryd mwy adnabyddus, pan ddywed yn goeglyd yn 'Y Wers Sbelio':

*Mae un sy'n Parry-Williams,*
*Ond Williams-Parry'r llall.*
*Eu taid ni hoffai heiffen,*
*Ond gwylia rhag y gwall.*

Teimlai nad oedd yn cael ei werthfawrogi fel bardd ac yr roedd yn feirniadol o agwedd cul awdurdodau'r prifysgolion oedd yn rhoi'r flaenoriaeth i waith ymchwil, pa mor ddiwerth bynnag y byddai, ar draul gwaith creadigol. 'Pwysicach yw'r chwilotwr / Nag awdur llyfr o gân', meddai yn y gerdd 'Chwilota', sydd yn gorffen gyda datganiad y bardd y byddai'n cael ei gofio am ei gyfraniad i'r *Bulletin*, yn hytrach nag am ei waith llenyddol.

Serch hynny, ystyrir ef gan lawer yn un o feirdd mwyaf Cymru, er mai dwy gyfrol yn unig a gyhoeddwyd ganddo. Y gyntaf yw *Yr Haf a Cherddi Eraill* (1924), a ymddangosodd bedair blynedd ar ddeg ar ôl iddo ddod i amlygrwydd drwy ennill y gadair am ei awdl 'Yr Haf'. Bu rhaid aros 28 blynedd arall cyn cyhoeddi'r ail gyfrol, *Cerddi'r Gaeaf*. Erbyn hynny roedd yn rhy fregus i'w hyrwyddo drwy'r wasg heb gymorth tri gŵr doeth sef, Gwilym Evans, Thomas Parry a J. O. Williams.

Gellir tybio mai 'Clychau'r Gog', 'Eifionydd', 'Y Llwynog' a'r englynion coffa i Hedd Wyn yw'r mwyaf adnabyddus o'i gerddi, ond mae ganddo gerddi eraill sydd lawn mor haeddiannol o'n sylw. Fe






ddywedodd Bedwyr Lewis Jones fod ei farddoniaeth yn 'peri i ni weld a chlywed ac arogli hen bethau o'r newydd' ac mae'r nodwedd hon ar ei hamlycaf yn ei delyneg 'Y Gylfinir'. Mae'n gweld yr aderyn fel bugail, yn ceisio corlannu ei braidd (y cymylau) sy'n cael eu chwythu gan ei gŵn (y pedwar gwynt), nes eu gwasgaru eto 'Yn yrr ddiorffwys, laes, ddi-fref, / Hyd ddyfnion hafodlasau'r nef.' Mae holl wrthrychau'r gerdd mor glwm wrth ei gilydd nes ei bod yn anodd tynnu'r elfennau ar wahân.

Ond nid harddwch yn unig a wêl y bardd mewn natur; gwêl greulondeb yn ogystal, a mynegir hyn yn ei gerdd 'Cobler y Coed' gyda'r is-deitl *Tithau hefyd Natur*. Mae'r sŵn a wna'r aderyn wrth ddrymio ar goeden yn ei atgoffa o'r bomiau a ddisgynodd adeg y rhyfel. Gwelir ymwybyddiaeth Williams Parry o greulondeb byd natur eto yn ei gerdd 'Gwanwyn', gyda'r is-deitl *Cân y Cigydd*. Nid tymor i orfoleddu yng ngeni'r ŵyn bach yw'r gwanwyn ond adeg i'w lladd ac nid yw hyd yn oed Cristnogion yn ddieuog o'r anfadwaith wrth fwynhau eu cinio dydd Sul:

*'Rôl byw fel angenogion*
*Am eithaf wythnos gul*
*Bydd melys gan Gristnogion*
*Fy seigiau ar y Sul.*

Roedd Williams Parry yn feirniadol iawn o'i gyd-ddynion; roedd yn casáu rhagrith a mynegir hyn yn ei benillion i'r 'Gwrthodedigion', sef y cyn-ddarlithydd, Saunders Lewis, y cyn-fancer, George M. Ll. Davies a'r cyn-weinidog, T Arthur Jones, Amlwch. Wrth sefyll dros eu hegwyddorion, erlidiwyd y tri a'u bwrw allan o'u swyddi; y cyntaf am sefyll dros ei wlad, yr ail am wrthwynebu'r rhyfel, a'r trydydd am roi'r flaenoriaeth i anghenion ifaciwîs yn erbyn ewyllys ei flaenoriaid.

Mae cwpled olaf awdl 'Yr Haf', a ystyrir yn un o awdlau gorau yr ugeinfed ganrif, mor amserol heddiw, yn yr ansicrwydd a ddaw yn sgil y coronafeirws, ag oedd pan gyfansoddwyd hi yn 1910: *'Ba enaid ŵyr ben y daith sy'n dyfod? / Boed ei anwybod i'r byd yn obaith.'*

## *GAIR BYR I'R DARLLENWYR, CYFRANWYR, DOSBARTHWYR A THEULU'R ANGOR*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** – Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
- **Rhifyn Gorffennaf 2020** erbyn bore Llun, 1 Mehefin 2020 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i garthdriveben@gmail.com
- **Rhifyn Awst/Medi 2020** – erbyn bore Mercher, 1 Gorffennaf, 2020 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd bore Mercher, 1 Gorffennaf.
- **Rhifyn Hydref 2020 –** erbyn bore Mawrth, 1 Medi, 2020 gan ein bod am bostio'r amlen pnawn Mawrth am 1.00 o'r gloch i Lanuwchllyn.
- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).
- **Croeso – eich llythyron ac ambell erthygl i'r Golygydd cyn 1/6/2020.**

**Daliwch i swatio a darllen Yr Angor**

# HYWEL ROBERTS, CAERNARFON
# adrodd braslun o'i fywyd i'r Golygydd

Cafodd Hywel ei eni yn y Liverpool Maternity hospital yn y flwyddyn 1938 a chafodd ei fedyddio yng Nghapel Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Stanley Road, Bootle, un o gapeli cryfaf yr enwad ar lannau Mersi. Ymysg ei bapurau y mae ganddo gopi o'r Adroddiad am 1938 ac y mae yn ymfalchïo yn hynny gan ei fod yn dweud y stori yn weddol fanwl fel yr oedd y Capel cyn iddo gael ei fomio. Mae ganddo hefyd lun da ohono ei hun yn faban. Roedd ei rieni yn Gymry pybyr, ei dad yn wreiddiol o Lithfaen a'i fam o Benmachno.

Ar ddiwrnod ei benblwydd yn un oed ar 3 Medi 1939 cyhoeddwyd y rhyfel ac anfonwyd ei Dad a'i ddosbarth o blant yn evacuees i bentref Diddlesbury yn Swydd Amwythig ac fe aeth Hywel ar ei ôl fel ifaciwi bychan. Yn ei archif mae ganddo lun ohono yn nhref y ffin, Amwythig sydd yn dal yn bwysig i bobl Clawdd Offa. Daw llawer o bobl Maldwyn yn gleifion i Ysbyty Amwythig heddiw.

Cafodd ei Dad ei alw i'r fyddin yn 1940 ac fe aeth Mam a Hywel i fyw at Taid a Nain ym Mhenmachno ac yno mae ei atgofion bore oes. Er ei fod ef yn un o blant Lerpwl nid oedd ef yn cael ei ystyried yn ifaciwi gan ei fod yn rhan o deulu Cymraeg adnabyddus ac yn mynd i Gapel Cymraeg. Y cam nesaf oedd dechrau fel disgybl yn Ysgol Penmachno. Ar ddiwedd y Rhyfel teithiodd Hywel a'i fam yn ôl i'r cartref yn Litherland yn Medi 1945 a daeth ei dad mewn ychydig o wythnosau wedyn. Roedd yn anodd iawn iddo fynd i ysgol Saesneg ar ôl bod yn ddisgybl dedwydd Ysgol Penmachno! Roedd ei rieni yn credu yn gydwybodol na fyddai ganddo obaith o gwbl gael heibio'r 11 Plus yn Lerpwl a dyma pam yr ymgeisiodd ei dad am swydd Athro yng Nghymru a'i dderbyn ar staff Ysgol Llanfrothen yn 1947 ac yn dilyn rai blynyddoedd llwyddodd y llanc o Litherland i basio i Ysgol Ramadeg Ffestiniog

Wedyn aeth Hywel i'r Brifysgol yn Aberystwyth yn 1956 a dod i adnabod Golygydd yr Angor a ugeiniau eraill. Adroddodd Ben yn ddifyr am y blynyddoedd hynny yn Aberystwyth yn *Di-Ben Draw,* ei hunangofiant. Diolch lawer am yr atgofion o Lerpwl, Penmachno, Llanfrothen a Choleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth lle enillais gradd i'm galluogi i wynebu ar y byd mawr, crwn a graddio. Cefais yrfa eitha llwyddiannus yn y byd academaidd ac mewn gwleidyddiaeth ond ysgrif arall i'w honno.




***Ail o'r chwith Kate Williams (Roberts) yn nyrs yn y Royal Southern, Lerpwl yn 1938 yn gwneud taffi i godi arian i'r ysbyty.***



***Hywel pan oedd yn Faer Caernarfon 2009***

***Mae Hywel yn dweud:***
***"Bu mam yn nyrs yn y Royal Southern a nhad yn athro yn Ysgol Gwladys Street, Everton ac ar ôl priodi roeddent yn aelodau yng nghapel Stanley Road lle bedyddiwyd fi yn 1938"***

# CORNEL Y TRYSORYDD



## MEHEFIN 2020

| | |
|---|---|
| Yr Athro Huw Rees, Boncath | £50.00 |
| Dr. Rhys Davies, Lerpwl | £50.00 |
| Mr David Mawdsley, Bodfari | £15.00 |
| Dr. Arthur Thomas, Lerpwl | £25.00 |
| Parch. Gerallt Lloyd Evans, Bodorgan | £30.00 |
| Miss Marian Prys Davies, Llandudno | £20.00 |
| Mr E. W. Williams, Childwall | £15.00 |
| Mrs Nan Hughes Parry, Woolton | £25.00 |
| Mr a Mrs Robyn Williams, Caergybi | £20.00 |
| Mrs Mair Roberts, Rhuthun | £30.00 |
| Mrs Heulwen Bott, Deganwy | £15.00 |
| **Cyfanswm** | **£295.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**




*Ebrill 22, 2020*

*Annwyl Olygydd,*

Diolch yn fawr, yn ôl yr arfer, am y golygyddol manwl dros dudalen a mwy yn rhifyn mis Mai o'r *Angor*. Mae'n wir ein bod mewn argyfwng mawr yn ein bywydau ac mae Dr D. Ben Rees yn gwneud rhai sylwadau perthnasol. Cytunaf yn llwyr fod y pwerau a roddir i'r llywodraeth yn bellgyrhaeddol, ond mae eu hangen. Y broblem gyda'r ddeddfwriaeth yw ei fod yn benagored a dylai fod graddfa amser wedi'i gosod arni. Er enghraifft, ar ôl mis byddai'r pwerau'n cwympo ond yna gellid eu hymestyn am fis arall gyda chaniatâd y Tŷ Cyffredin.

Rhaid cofio bod pobl, hyd yn oed gyda'r pwerau sydd mewn grym, wedi methu â chydymffurfio, gan gynnwys aelodau o'r llywodraeth. Maent yn dymuno arfer eu hawliau dynol ond mae hynny'n golygu peryglu eraill. Mae gan yr 'eraill' hynny eu hawl ddynol i gael eu cadw'n ddiogel.

Ni allaf gytuno â'r Golygydd ar y pwnc o gau addoldai yn ystod yr argyfwng. Yn yr achos hwn nid yw addoldai yn wahanol i fannau ymgynnull torfol eraill. Nid yw'r ffaith bod adeilad yn grefyddol yn golygu bod y firws yn ei osgoi. Yn yr enghraifft am Foscow dywed y Golygyddol fod y bobl gyffredin eisiau bod yn 'agos at Dduw'. Trwy gymysgu a pheidio â hunan-ynysu ac ymarfer pellter cymdeithasol, roedd ganddyn nhw bob posibilrwydd o fod yn 'agosach at Dduw' nag y bydden nhw'n dymuno.

Mae gan bob un ohonom ein rhan i'w chwarae ar hyn o bryd. Yr her ar gyfer y dyfodol, pan fydd pethau'n gwella, yw ceisio dychwelyd i'r byd, a'n gwlad, i le gwell nag yr oedd o'r blaen. Y Deyrnas Unedig lle mae pawb yn cael eu parchu a'r cyfoethog ddim yn byw oddi ar y tlawd mewn cymdeithas. Ni fydd yn hawdd, yn union fel na fydd yn hawdd ailsefydlu crefyddau, ond bydd gan bob un ohonom ein rhan i'w chwarae Ysgrifennodd Mererid Hopwood y ddau bennill hyn:

*A thrwy'r holl ymynusu hwn,*
*Mae calon Cymru'n curo,*
*Ai phobol fel y tir dan draed*
*Drwy'r saib yn ailegnio.*

*Ac os o hyd bod llinell bell*
*Ddi-derfyn … gwn fod darfod,*
*Mae dyddiau blin yn dod i ben,*
*Mae amser gwell yn dyfod.*

gyda chofion,
***David Williams (Karslake).***

**Ymateb y Golygydd**

Bu ymateb da iawn i'r Golygyddol y sonnir amdano a braf gael llythyr wedi ei resymu'n dda. Dyma lythyr manwl a groesawaf sydd yn nodweddiadol bellach o'r brawd David Williams. Y mae ganddo farn dda ac yn haeddu atebiad. Y drafferth ydyw nad yw David yn dod o'r un cyfeiriad o gwbl a'r Golygydd. Cefais fy ordeinio yn 1962 yn Weinidog yr efengyl sydd yn gyfrifoleb aruthrol na wyr lleygwr fel David Williams ddim byd amdano. Gobeithio fod David yn ysgwyddo ar y Sul gyfrifoldeb yn ei gapel neu eglwys leol gan y byddai cario'r baich hwnnw yn ei ddod yn agosach ataf fi a miloedd ar filoedd o Offeiriaid a Gweinidogion a Bugeiliaid yr Eglwysi Anglicanaidd, Catholig, Eglwysi Rhyddion a'r eglwysi Pentecostal, carismatig. Mae'r mater yn dyngedfennol gan fod yr aweiniad a gafwyd yn ystod yr wythnosau diwethaf hyn yn arddangos argyfwng mewn Arweinyddiaeth ymhlith gwŷr a gwragedd a neilltuwyd ymhlith y Mwslemiaid, Cristnogion (Protestaniaid a Chatholigion) i arwain byd a betws. Argyfwng yw hwn na welwyd mohono ers pa bryd? Erioed mae'n siwr yw'r ateb. O leiaf mae y Prif Weinidog wedi bod trwy'r felin ac yn dal i edrych yn welw ac angen gofal arno, a chawsom arweiniad ganddo ef sydd wedi plesio y mwyafrif mawr ohonom gan gynnwys David a minnau Ond roeddwn i yn disgwyl arweiniad llawer mwy gan yr Arweinyddion Ysbrydol ar wahan i gytuno fod angen lleihau dybryd ar y gynulleidfa os cynhelir gwasanaeth angladdol a bedydd a phriodas. Ond dim sôn am gynnal oedfa ar y Sul, ffynnon bywiol y credinwyr. Onid ellid cael ar Ddydd yr Arglwydd 5 gwasanaeth y dydd i gymryd dim mwy na hanner awr y tro a gwahodd 25 i bob oedfa. Yr Oedfa yng ngofal cenhadon o dan 68 mlwydd oed, ac oes canu dylai'r organydd fod o dan oedran yr addewid. Gellid disgwyl fel y dywedais fod aml i Arweinydd – yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru – y Bedyddwyr Cymraeg – yr Eglwys Fethodistaidd – a'r Eglwys Esgobol – fod wedi meddwl llawer mwy ar y cwestiwn. Y Frenhines Elisabeth yr Ail yw'r unig un a roddodd arweiniad ysbrydol o gyfeiriad Eglwys Wladol. Croesawaf y rhai hynny sydd yn cytuno fod angen llawer mwy arnom ar y Sul. Darllenais fyrdwn neges hanner dwsin ohonynt yn y cylchgronau a'r papurau seciwlar ar y thema 'Cau yr Eglwysi'. Dyma ddewis un ohonynt sef ymateb offeiriad Eglwys Sant Ioan yr Efengylydd yn Kensal Green, Llundain 10, y Parchedig David Ackerman. Dyma ddyfynnu paragraff o'i lythyr dyddiedig 25 Ebrill 2020:

*The closing of churches may be seen as a defining moment in the life of the Church of England. As the Archbishop of Canterbury broadcast from his kitchen on Easter day, impervious to the damage his 'leadership' has caused, many Anglican clergy and people I know looked to the image of the Pope in an almost empty St Peter's , and saw the true image of Christian service. To celebrate our freedom, the issue of closed churches is now more than what Justin Welby suggests.*

Nid oes angen dweud mwy ac felly fel popeth arall y mae dwy ochr i bob pwnc. Dyna fy ateb, dewch eto i ***Taro Post.***

# Cefndir Myfyrdod yn ystod yr Haint

### gan y bardd a'r naturiaethwr
### Norman Closs, Carmel, ger Treffynnon

Gwelais eitem hapus yng nghanol tristwch yr haint ar Ebrill y Cyntaf – o bob dydd. Cyfeirio yr oedd y gohebydd at waith artistig newydd gan David Hockney yr arlunydd 82 mlwydd oed. Roedd yn darlunio y daffodiliau o gwmpas ei 'dŷ' yn Normandy – hefyd blodau y coed ffrwythau yn y berllan yn erbyn asur pur awyr y gwanwyn. Campweithiau!

Yr oedd wedi llythyru [mewn llawysgrifen] ei argraffiadau i'w gyfaill William Gompertz, gohebydd Celfyddydau y BBC. A hwnnw yn darllen o lythyr Hockney, daliodd fy nghlust gyfeiriad fel hyn *"They cannot cancel Spring"*.

**David Hockney**

*Y firws ar ei daith farwol – undod*
*digalondid pobol….*
*Ô'n peintio' o stiwdio'i stôl*
*hen hen ryddid gwefreiddiol.*

O garchar fy nghartref – rwyf yn edrych yn fanylach, yn ddyfnach bob dydd… dyna sail y myfyrdod … yn ystod yr Haint…

# Gobaith y Gwanwyn yn yr Hunan-Ynysu

***gan***
***Nan Hughes Parry***

Dyma gerdd berthnasol Eirlys Parry ar y Gwanwyn:

***Y Gwanwyn ddaeth i Gymru***
***Mor brydlon ag erioed,***
***Cyn i'r Gaeaf wybod***
***Roedd briallu dan y coed.***
***Y Gwanwyn ddaeth a'i weddi***
***Un daer ar ran y byd,***
***Bloeddiwn i gyd am heddwch***
***Unwn nawr mewn pryd i!***

Dyma ran o delyneg hyfryd, ac fel y dywed y pennill mae'r gwanwyn wedi ymwthio trwy'r tir, a soniarus gân a chwmni yr adar bach yn dwyn llawer o gysur a ninnau wedi hunan ynysu yn ein cartrefi ac yn cael ymlwybro am ychydig i eistedd yn yr ardd. Mae un peth yn dra gwahanol ers canol Mawrth, ni chawsom gyfle i gyfarfod yn eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl. Diolch er y golled am gyfraniad yr oedfaon ar y teledu, Radio Cymru a Radio Pedwar a'r rhyngrwyd heb anghofio Cyfarfodydd Gweddi dros y ffôn.

*'Po dwyllaf ynos*
*Yna agosach yw'r wawr'*

Cofiwn am addewid Iesu Grist: 'Yr wyf I gyda chwi bob amser', a thynwn ninnau yn rhaffau yr addewidion. Rhydd yr amser a rydd hunan-ynysu i ni o ddydd i ddydd gyfle da i ninnau i ymdawelu, i fyfyrio, i wrando ar eiriau Doethineb yr Ysgrythurau ac i weddïo yn ein ystafell, a chan gofio gerbron Duw yng Nghrist am y rhai sydd yn dioddef o'r aflwydd heintus hwn sy'n llechwraidd lwybreiddio drwy'r gwledydd.


Byddwn yn ffyddiog, mae daioni, ewyllys da a gofal yn tynnu'r gorau o'r ddynoliaeth wrth weld yr angen ac yn fodlon i aberthu eu hunain yn mhob rhyw fodd, yn ddoctoriaid, nyrsus, gweithwyr a gofalwyr cymdeithasol, a'r holl waith gwirfoddol yr elusennau – a hynny heb gyfrif y gost.

Mae gweld yr Enfys o waith y plant ar ffenestri eu cartrefi yn arwydd o obaith, a'r curo dwylo o ddiolch i'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol bob nos Iau ers rhai wythnosau ar strydoedd ein stadau, strydoedd ein pentrefi a threfi. Anturiwn ninnau ymlaen yr Hunan-Ynyswyr yn dawel yng nghwmni ein Duw gan wybod bod ein teuluoedd yn medru cadw cysylltiad fel y gwna y gweinidogion ac arweinwyr Bethel a'r eglwysi eraill. Byddwch ddiogel, daw eto haul ar fryn, a gwerthfawrogwn yr holl alwadau hyfryd i godi ein calonnau.

# COFIO KILSBY

Yn ystod y caethdra mawr a ddioddefodd pawb yn ystod y misoedd diwethaf, buom o raid neu o ddewis yn gwneud rhai pethau cwbwl angenrheidiol. Un o'r pethau angenrheidiol a wneuthum i oedd tacluso'r stydi, rhoi trefn ar rai llyfrau, a gwagio droriau a *filing-cabinet* o bapurach di-werth-i-neb-bellach. Wrth wneud hynny deuthum ar draws ffeil yn cynnwys cryn ddeugain o ysgrifau yr anfonaswn i Wasg Gomer ddiwedd y ganrif ddiwethaf ac a ddychwelwyd imi, efallai am na fynnai'r wasg eu cyhoeddi'n llyfr. Ni chofiwn ddim amdanynt.

Ysgrifau a ddarlledwyd ar *Rhwng Gŵyl a Gwaith* Radio Cymru oeddynt gan mwyaf. Ganol Ebrill 1989, darlledais ysgrif ar y Parchedig J. R. Kilsby Jones, a fu farw ganrif union ynghynt, gan adael yr Hen Wlad yn llwytach o'i fynd, a'r pulpud yn fwy pŵl. Dyn hardd, dwylath o hyd, a safai yn syth ac a gerddai fel ewig. Pregethwr gloyw, nad 'ofnai na brenin na chardotyn', ys dywed ei gofiannydd Vyrnwy Morgan. Ond yr oedd pobl yn ei ofni ef, am ei fod mor ddidderbynwyneb ac mor llym ei dafod. Gallai lorio unrhyw un gyda'r hyn a alwodd Watcyn Wyn yn 'ddirmyg Kilsbiaidd'.



Y mae dwsinau o straeon amdano, ond dyma un. Un diwrnod yr oedd yn cerdded drwy Hwlfforddd fraich ym mraich gyda chyfaill iddo, cyfreithiwr o'r enw Mr Rees. Fel yr oeddynt yn cerdded dyma ddyn tlawd a adwaenai Mr Rees yn 'ymgrymu a chynffoni' iddo yn y modd mwyaf gwasaidd, ac yn tynnu'i het iddo dro ar ôl tro. Ni allai Kilsby ddioddef y fath ymddygiad, ac ebe fe wrth y tlotyn: 'Gwisg dy het, ddyn; addola Dduw ac nid Mr Rees y cyfreithiwr.'

Y mae'n bosib mai i goncro unrhyw deimlad o waseidd-dra ynddo fe'i hun yn meistrolodd Saesneg mor ardderchog. Dywedid ei fod yn siarad yr iaith fain fel Sais a gawsai addysg glasurol. Elfen arall ynddo sy'n tystio i'w wrth-wasanaethdra oedd ei ariangarwch. Anogai ei frodyr yn y weinidogaeth i wneud arian, neu ei briodi. Ac eto, er ei fod yn Sais-garwr, barn Thomas Levi amdano oedd na allai oddef un math o 'ddrwgliwiaeth' ar y Cymry na'r Gymraeg. Ac er ei fod yn ariangar, meddai ar gydwybod 'nad oedd digon o arian yn y greadigaeth i'w phrynu'. Dyn ei oes a dyn y byd.

Dyn crefydd yr un pryd. Gweinidog gyda'r Annibynwyr ydoedd, ym Machynlleth, yn swydd Northampton (yno y cafodd y Kilsby: James Rhys Jones oedd ei enw bedydd), yn Birmingham, Bolton, Llundain a Llandrindod. Ni wisgai fel pregethwr, eithr mor anghlerigol â phosib, mewn dillad ansyber o olau a lliwgar. Ni hidiai iot am hynny. Nac am y ffaith y disgwyliai rhai Anghydffurfwyr iddo fod yn llwyrymwrthodwr. Carai Kilsby'r ddiod gadarn yn fawr. Un tro, ar ôl beirniadu'r adrodd yng nghyfarfod y bore yn Eisteddfod Crughywel, aeth am ginio at y rheithor. Ar ôl 'ei helpu â rhagor o *salmon*, gofynnodd y Rector, "Will you have another glass?" [o win, fe ddichon]. Atebodd Kilsby yn foesgar, "Thank you, a salmon ought to swim."

I gryn raddau, ynteu, yr oedd ei fywyd, chwedl Vyrnwy Morgan, yn 'wrth-dystiad i ffugsancteiddrwydd ei oes'. Ond y mae dyn yn cael y teimlad bod ei frafado yn cuddio rhai poenau go ddwfn. Ni chafodd erioed eglwys fawr i'w gweinidogaethu yng Nghymru; priododd wraig od o anaddas i'r mans; a magodd fab a giciodd yn enbyd yn erbyn y tresi. Byddaf yn meddwl weithiau y byddai Kilsby wedi ffeirio tipyn o'i rebeliaeth reiol am ychydig o gysur a chydymdeimlad gartref.

Ond mynnodd lonydd yno i weithio. A'r gwaith mawr y cofir ef amdano yw ei olygiad o *Holl Weithiau William Williams Pantycelyn,* 1867.

***Derec Llwyd Morgan***

# ANGOR IAITH, DIWYLLIANT A CHYMUNED

***Robin Gwyndaf***

**CODI ANGOR**
**YN LERPWL A PENBEDW A MANCEINION**
**gol. D. Ben Rees**
**Cyhoeddiadau Modern Cymreig**
**406tt. £15 a £10**

**Dyddiau o lawen chwedl oedd Gorffennaf 20 a 21, 2019 i drigolion Lerpwl a'r cyffiniau. Dyna pa bryd y cynhaliwyd gŵyl gofiadwy i ddathlu deugain mlynedd o gyhoeddi '*Yr Angor'*, papur bro unigryw 'Cymry glannau Mersi a Manceinion'. A chyhoeddi hefyd y gyfrol, 'Codi'r Angor' yn Lerpwl a Phenbedw a Manceinion.**


Y mae'r 'Angor' wedi ymddangos yn ddi-dor er mis Mehefin 1979. Ceir deg rhifyn bob blwyddyn. Mae'n gyfoethog ei gynnwys, cain ei ddiwyg, ac yn un o'r papurau bro cyntaf i ddefnyddio lliw. Mae'n unigryw oherwydd ei fod yn bodoli y tu allan i Gymru, ac yn unigryw hefyd oherwydd mai un golygydd a fu iddo o'r dechrau, sef y Parchg Ddr D Ben Rees. Ac ef a fu'n golygu'r gyfrol 'Codi'r Angor'.

Fy ngorchwyl bleserus gyntaf i, felly, wrth groesawu'r gyfrol newydd, hardd hon yw diolch am destun diolch. Dyna hefyd fyrdwn Cyflwyniad y Dr. John G. Williams, Cadeirydd presennol Pwyllgor Gwaith 'Yr Angor'. Diolch o waelod calon i'r darllenwyr am gefnogi'r papur; i bawb ar hyd y blynyddoedd a fu'n ysgwyddo'r baich o'i baratoi; ac yn arbennig iawn i gapten y tîm, D. Ben Rees.

Y mae'r gyfrol 406 tudalen yn cynnwys nifer o luniau, wedi'u gosod yn ystyrlon hwnt ac yma. Detholwyd 218 cyfraniad a'u dosbarthu, nid yn ôl trefn amseryddol, gyda nodyn o ddyddiad cyhoeddi, fel o bosibl y byddid yn ei ddisgwyl, ond yn ôl eu penawdau a threfn yr wyddor. Un peth, fodd bynnag, sy'n amlwg iawn: y mae cynnwys y gyfrol yn eithriadol o ddiddorol ac amrywiol. Y mae'n sicr o roi boddhad mawr, nid yn unig i ddarllenwyr bro'r *Angor*, ond hefyd i ddarllenwyr yng Nghymru gyfan.

Beth yw gwerth y gyfrol? Mewn brawddeg: y mae'n adlewyrchu fel y bu i'r 'Angor', o fis i fis am 40 mlynedd roi inni gofnod amhrisiadwy, darlun byw o fwrlwm y gweithgarwch Cymraeg yn Lerpwl, Penbedw, a'r cyffiniau, ddoe a heddiw. A gwneud hynny yn ddifyr a safonol drwy gyfrwng y Gymraeg. A mwy na hynny, yng ngeiriau Elin Bryn Boyd (cyfraniad 93): '[Mae'n] gylchgrawn arbennig iawn ... sy'n cadw cymuned Gymraeg y Glannau yn fyw ac yn ymwybodol o'i threftadaeth'. Mewn geiriau eraill, mae'n angor heb ei ail i iaith, diwylliant a chymuned.

Nid rhwydd oedd dethol deunydd dros gyfnod o ddeugain mlynedd, ond llwyddwyd yn rhyfeddol i roi inni ddarlun cynhwysfawr, cymesur, o'r bywyd Cymraeg a Chymreig yn y rhan hon o Loegr. Rhoddwyd sylw, er enghraifft, i grefydd, llen a cherddoriaeth; addysg; meddygaeth (e.e., portread o'r meddyg, Robert Owen, 211); cyfraith a threfn (e.e., portread o'r Arolygydd John Lyons, 200); enwogion a chymwynaswyr, megis y brodyr Henry Rees a Gwilym Hiraethog (119,191); dathliadau, megis priodasau; ysgrifau i goffáu cyfeillion; chwaraeon (e.e., Ian Rush, 128); digwyddiadau, megis helynt Toxteth (117), a Gŵyl Hedd Wyn, Medi 2017 (82). Da oedd cynnwys detholiad o golofnau difyr Roderick Owen: 'Byd Digri' (31), a'r 'Golofn Ddigri' (73). A nodwyd yn haeddiannol iawn gyfraniadau hollbwysig rhai cymdeithasau, megis Cymdeithas Etifeddiaeth Glannau Merswy a Chymdeithas Cymry Penbedw.



**D. Ben Rees yn lansio ei lyfr**
*(llun gan Ray Farley, Gorffennaf 2019)*

Cynhwyswyd cyfraniadau diddorol iawn gan nifer o bersonau o Gymru, megis Huw Edwards, Dylan Iorwerth, Bobi Jones, Dic Jones, Harri Parri, a Rhydwen Williams. Y mae'r cyfraniadau hyn, ac eraill yn y gyfrol, yn ein hatgoffa o'r ddolen annatod a fu erioed rhwng cynifer o drigolion bro'r *Angor* a phobl Cymru. Ceir dwy enghraifft dda yn y gyfrol gan y Golygydd ei hun, sef ei bortread byw o'r 'Anhygoel Bob Owen, Croesor' (201), a'i deyrnged i'r Rhingyll William Jones, brodor o Flaenau Ffestiniog, 'Brenin Cymry Lerpwl' (29). Pleser arbennig i mi oedd darllen, fel rhan o'r ysgrif hon, awdl fer ddiffuant iawn gan R. Bryn Williams, brawd yng nghyfraith William Jones. Dyma'r llinellau clo:

*I'w hen wlad fe awn a'i lwch*
*I fro ei hud ei hyfrydwch;*
*A daw can a deunod cog*
*I'w annerch yn Ffestiniog.*

Yn 2018 gwnaed D. Ben Rees yn Ddinesydd er Anrhydedd Dinas Lerpwl. Gyda chefnogaeth gyson Meinwen, ei briod, bu'n weinidog ac yn gyfaill mawr ei gymwynas, yn arbennig i Gymry glannau Merswy, ann dros 50 mlynedd. Fel eu prif hanesydd, y mae wedi arddangos diwydrwydd a dalifyndrwydd di-ben- draw. Cyhoeddodd eisoes chwarel o ddeunyddiau gwerthfawr, a chefais gyfle i ddarllen ei gyfrol gynhwysfawr arfaethedig: *Hanes Rhyfeddol Cymry Lerpwl*. Trysor yn wir. A dyma yn awr un arall o'i gymwynasau: paratoi'r gyfrol bresennol, 'Codi Angor'.

Yn rhifyn Gorffennaf 2019 o'r 'Angor', fy mraint i oedd cael cyhoeddi englyn i'r papur bro hwn. Cyhoeddaf yr englyn eto i gloi'r sylwadau hyn, gyda diolch, ac i ddweud, ar ran trigolion bro'r Angor a Chymru gyfan: pob llwyddiant a dymuniadau da yn y dyfodol.

*Llun a llên i'n dolennu; ac mor ir*
*Yw'r Gymraeg i'n clymu;*
*Geiriau fil, gorau a fu,*
*I'n dal yn llawen deulu.*


*Gyda diolch i'r Casglwr 128, 2020*


CYMRAEG
***Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***

*Cyhoeddwyd gan*
*Bwyllgor yr Angor,*
*Heathfield Road, Lerpwl 15.*

*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn,*
*Llanuwchllyn 07729 960484*

# LLONGYFARCHIADAU



***Llongyfarchiadau i Rhiannon Liddell ar ddod yn hen nain i Bobby Alan Hodges a anwyd ar Ebrill 23ain yn Ysbyty Whiston. Mae'r fam, Emma, a Bobby yn gwneud yn iawn.***



***Llongyfarchiadau i Rhodri ac Iola Smith ar enedigaeth eu mab Elis Llewelyn ar Ebrill 6ed.***
***Mae Rhodri yn feddyg ac yn gwneud gwaith ymchwil ar hyn o bryd yn Lerpwl. Bydd Elis yn ffrind mawr, gobeithio, i'w chwaer, Martha.***
***Pob bendith i'r ddau deulu.***

## Eseia 26:20

***Dewch fy mhobl, dewch a neulltuo / ewch i'ch ystafell nes i'r llid fynd heibio***

**Gardd flêr Bryn Ceris yn yr haul**

Cennin Pedr yng nghornel flera yr ardd
a'r trwmpedau aur yn cyfarch "Y Bardd".

Cacynen bwm…lafurus feddw
newydd ddeffro o'i gwâl a gaeaf garw.

Ffrwydradau 'distaw' y blagur fyrdd
yma'n yr heulwen – ***dyma beth yw gwyrdd!***

gweld drwy un ddeilen ei gwneuthuriad hi
'run ynni gwaelodol ac ynof i…

Gwylan benwaig yn sgawtio'r fro
'Ni fu mor wâg ddi sbwriel ers cyn co!'

Cawodydd 'glaw tyfu' Ebrill ar daen-
enfys – cyfamod tragwyddol yn blaen..

Cusan yr awel yn rhuddo fy moch…
deffro! diolch am gwmni robin goch!



Esgyll sguthan yn clecian drwy'r gwydd
pluen yn nofio…ar awel y dydd…

Potiau y patio yn orlawn o chwyn!
Beth! Ystâd annerbyniol iawn – fan hyn..

Ond! yn eu mysg mae fy ffefryn erioed
mae'i aur yn atgoffa antur ac oed…

estyll Cwm Idwal…lwybrau Fach-Wen –
Y Pabi Cymreig – dyma fo! Amen…

*Norman Closs, Carmel*